# Gweithdrefn adnewyddu ar gyfer trwyddedau amlblecs radio lleol: diweddariad Hydref 2024

Ym mis Medi 2020, cyhoeddodd Ofcom ganllawiau ar y weithdrefn i adnewyddu trwyddedau amlblecs radio lleol gan atodi cynlluniau darpariaeth er mwyn asesu cymhwysedd i adnewyddu'r trwyddedau hynny.

Ym mis Mai 2023, fe wnaethom gyhoeddi diweddariad i'n gweithdrefnau i adnewyddu trwyddedau amlblecs radio lleol, gan ddiwygio nifer o'r cynlluniau darpariaeth sydd wedi'u hatodi i'r canllawiau. Roedd hyn yn caniatáu adnewyddu mwy o drwyddedau drwy ddileu'r gofyniad i weithredu'r safleoedd 'Cam 2' hynny a fyddai'n gyfraniad bach iawn at gyfateb i ddarpariaeth FM. Y nod oedd sicrhau lefelau presennol o ddarpariaeth DAB i aelwydydd yn yr ardaloedd hynny, a gwarchod rhag gostyngiad posibl mewn darpariaeth a allai ddeillio o ail-hysbysebu trwyddedau yn hytrach na'u hadnewyddu ac felly bod ymgeiswyr yn gallu cynnig cynlluniau darpariaeth hollol newydd.

Ers cyhoeddi'r diweddariad hwnnw, rydym wedi ystyried dau amlblecs arall – Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Gogledd Ddwyrain Cymru a Gorllewin Swydd Gaer – nad yw eu darpariaeth ar hyn o bryd yn ymestyn cyn belled â'r cynlluniau darpariaeth sy'n ymddangos yn y canllawiau ar hyn o bryd. O ganlyniad, rydym yn adolygu ein sefyllfa yng nghyswllt yr amlblecsau hyn.

## Gogledd Ddwyrain Cymru a Gorllewin Swydd Gaer

Mae'r cynllun darpariaeth a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020 yn mynnu bod yr amlblecs yn cynnig darpariaeth i Langollen yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, rydym yn fodlon na fyddai safle Llangollen yn cyfrannu at gywerthedd â "darpariaeth radio masnachol lleol FM perthnasol sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal neu'r ardal leol honno" gan nad oes darpariaeth FM fasnachol leol yn yr ardal hon. O ganlyniad, rydym yn diweddaru'r cynllun darpariaeth i ddileu'r gofyniad hwn.

## Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae'r map darpariaeth wedi'i ddiweddaru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023 yn cynnwys darpariaeth i Aberystwyth ac i'r ardaloedd cyfagos. Mae gwasanaeth FM masnachol lleol sy'n gwasanaethu Aberystwyth, ac rydym yn dal i feddwl bod cyfwerthedd FM yn gofyn am ddarpariaeth i Aberystwyth.

Roedd y ddarpariaeth DAB i Aberystwyth ym map darpariaeth mis Medi 2020 yn seiliedig ar safle 'Cam 1' yng Nghytundeb Fframwaith y Llywodraeth ar Ehangu DAB Lleol, ym Mlaenplwyf. Mae'r trwyddedai'n credu bod y gost o adeiladu a gweithredu trosglwyddydd ar y safle hwn yn afresymol.

O'r herwydd, rydym wedi penderfynu diwygio'r ddarpariaeth sy'n ofynnol er mwyn i'r drwydded hon fod yn gymwys i'w hadnewyddu, er mwyn cadw gofyniad am ddarpariaeth yn Aberystwyth ond hefyd i ddarparu mwy o hyblygrwydd o ran sut gellid sicrhau'r ddarpariaeth hon. I'r perwyl hwn, rydym wedi cyhoeddi map darpariaeth wedi'i ddiweddaru. Rydym yn credu mai dyma'r ffordd orau o sicrhau bod rhywfaint o ddarpariaeth yn ardal Aberystwyth, gan sicrhau'r lefel bresennol o ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig mewn mannau eraill gan yr amlblecs drwy gydol cyfnod y drwydded newydd.

Nodir, pe bai'r drwydded yn cael ei hail-hysbysebu yn hytrach na'i hadnewyddu, y byddai angen i ymgeiswyr nodi cynigion darpariaeth newydd fel rhan o'u cais; ni fyddai unrhyw gynigion o'r fath yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth bresennol. O ystyried costau trosglwyddo a ffactorau cyd-destunol eraill, mae ymgeiswyr yn llai tebygol o gadw'r ddarpariaeth bresennol neu gynyddu'r ddarpariaeth i gynnwys Aberystwyth yn eu cais, ac yn fwy tebygol o leihau'r ddarpariaeth bresennol.